

Yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol asesu SMNR

Cyfoeth Naturiol Cymru

Adroddiad Terfynol

Gwybodaeth am Cyfoeth Naturiol Cymru

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwylt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

Tystiolaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn sefydliad sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn ceisio sicrhau bod ein strategaethau, penderfyniadau, gweithrediadau a chyngor i Lywodraeth Cymru ac eraill wedi'u tanategu gan dystiolaeth gadarn sydd o ansawdd uchel. Rydym yn cydnabod ei bod yn hanfodol bwysig meddu ar ddealltwriaeth dda o'n hamgylchedd newidiol.

Byddwn yn gwireddu'r weledigaeth hon drwy'r isod:

- Cynnal a datblygu sgiliau arbenigol technegol ein haelodau staff;
- Diogelu ein data a'n gwybodaeth;
- Sicrhau rhaglen ragweithiol o waith dystiolaeth sydd â digon o adnoddau;
- Parhau i adolygu ac ychwanegu at ein dystiolaeth er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer yr heriau yr ydym yn eu hwynebu; a
- Rhannu ein dystiolaeth mewn modd agored a thryloyw.

Teitl: **SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol asesu SMNR**

Adolygiadau gan Gymheiriaid: Adolygiad gan gymheiriaid mewnol ac allanol

Cyfyngiadau: Dim

Cynnwys yr Ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020)

Mae'r ddogfen hon yn un o grŵp o gynhyrchion sy'n ffurfio'r ail Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020). Dyma'r gyfres lawn o gynhyrchion:

Crynodeb Gweithredol. Rhagair, Cyflwyniad, Crynodeb a Chasgliadau. Cyhoeddwyd fel cyfres o dudalennau gwe ym mis Rhagfyr 2020

Y Cofrestrau Adnoddau Naturiol. Ysgogwyr, Pwysau, Effeithiau a Chyfleoedd i Weithredu ar gyfer wyth Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ac fel ffeithlun rhyngweithiol ym mis Rhagfyr 2020

Asesiadau yn erbyn pedwar nod Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Rhagfyr 2020:

Nod 1 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 2 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae ecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid disgwylidig ac anrhagweledig

Nod 3 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Mae gan Gymru leoedd iach i bobl sydd wedi'u gwarchod rhag peryglon amgylcheddol

Nod 4 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyfrannu at economi adfywiol, cyflawni lefelau cynhyrchu a defnydd cynaliadwy

Asesiad o Fioamrywiaeth Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Asesiadau yn ôl Ecosystem Eang. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ymylon Arfordirol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ffermdir Caeedig

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Dŵr Croyw

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Yr Ardal Forol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Mynyddoedd, Gweundiroedd a Rhosydd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Coetiroedd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Trefol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Glaswelltir Lled-naturiol

Asesiadau yn ôl Thema Drawsbynciol. Cyhoeddwyd fel cyfres o ddogfennau PDF ym mis Mawrth 2021:

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Ansawdd Aer

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Y Newid yn yr Hinsawdd

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Ynni

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Rhywogaethau Estron Goresgynnol

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Priddoedd a Defnydd Tir

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Gwastraff

Asesiad o Gyflawni Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy: Effeithlonrwydd Dŵr

Anghenion tystiolaeth diweddaredig yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021

Acronymau a Rhestr Termu. Cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020 a diweddarwyd ym mis Mawrth 2021

Dyfyniad argymelledig ar gyfer y rhan hon o'r adroddiad:

Cyfoeth Naturiol Cymru. 2020. SoNaRR2020 cofrestru glaswelltiroedd lled-naturiol asesu SMNR. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Hawlfreintiau

Oni nodir yn wahanol, gall cynnwys yr adroddiad hwn gael ei ddefnyddio dan [drwydded Llywodraeth Agored](#)

Oni nodir yn wahanol, mae'r holl graffiau, mapiau, tablau a delweddau eraill yn © Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys ffin Cymru:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl. © Hawlfraint y Goron a chronfa ddata 2020. Rhif trwydded 100019741 yr Arolwg Ordnans.

Yr holl fapiau sy'n cynnwys agweddau morol:

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawl cronfa ddata. Cedwir pob hawl © y Goron Brydeinig ac OceanWise Ltd, 2020. Cedwir pob hawl. Rhif trwydded EK001-20120402. Ni ddylid eu defnyddio at ddibenion mordwyaeth.

Glaswelltiroedd lled-naturiol Cofrestr Adnoddau Naturiol Asesiad o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020

Nod 1: Mae stociau o adnoddau naturiol yn cael eu diogelu a'u gwella

Nod 1: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 1.1 Yn gyffredinol, mae glaswelltiroedd lled-naturiol wedi'u cysylltu'n well ar ymylon yr ucheldir, ac wedi'u cysylltu'n llawer gwell yn yr ucheldiroedd, lle mae darnau o'r cynefin yn llawer mwy yn gyffredinol.
Asesiad hyder: Uchel
Mae ehangder y glaswelltiroedd lled-naturiol yn yr ucheldiroedd ac ymylon yr ucheldir yn ymddangos yn weddol sefydlog ar hyn o bryd.
Asesiad hyder: Isel
Fodd bynnag, gallai fod yn ddymunol i newid rhai ardaloedd yn gynefinoedd eraill, fel rhostir.
- 1.2 Mae colli cynefin glaswelltir o ansawdd uchel yn parhau i ddigwydd yn yr iseldiroedd y tu allan i'r rhwydwaith safleoedd gwarchoddedig.
Asesiad hyder: Canolig
Mae 99% o gynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth yn yr iseldiroedd.
- 1.3 Mae 27% o'r holl laswelltir lled-naturiol yng Nghymru, a 10% o gynefinoedd glaswelltir â blaenoriaeth, ar safleoedd gwarchoddedig statudol. Mae amddiffyniad safle statudol yn cyfyngu'n fawr ar golli cynefin glaswelltir lled-naturiol.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.4 Mae mwyafrif o nodweddion Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig glaswelltir lled-naturiol yr iseldir mewn cyflwr anffafriol.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.5 Mae 19% o gynefinoedd â blaenoriaeth glaswelltir sydd wedi'i fapio wedi'u cwmpasu gan opsiynau glaswelltir Glastir Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2012 i 2019).
Asesiad hyder: Uchel
- 1.6 Mae Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn cwmpasu'r holl laswelltir lled-naturiol ac wedi atal digwyddiadau o ddifrod sylweddol i o leiaf 89 o safleoedd glaswelltir o werth cadwraeth uchel ers 2002.
Asesiad hyder: Uchel

Nod 1: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 1.7 Glaswelltir lled-naturiol yw'r ecosystem fwyaf tameidiog yn iseldiroedd Cymru.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.8 Dim ond tua 10% o gynefinoedd â blaenoriaeth glaswelltir sydd ar safleoedd gwarchoddedig.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.9 Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 21% o'r glaswelltir lled-naturiol ar safleoedd gwarchoddedig yn dod o dan gytundebau rheoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig penodol sydd â'r nod o wella cyflwr glaswelltir.
Asesiad hyder: Uchel
- 1.10 Nid yw 81% o gynefinoedd â blaenoriaeth glaswelltir sydd wedi'i fapio wedi'u cwmpasu gan opsiynau glaswelltir Glastir Uwch yn ystod y blynyddoedd diwethaf (2012 i 2019).
Asesiad hyder: Uchel
- 1.11 Mae Rheoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (Amaethyddiaeth) yn annhebygol o warchod rhag newidiadau graddol, megis cynnydd cynyddrannol mewn rhoi gwrtaiith, ac nid ydynt wedi'u cynllunio i atal esgeulustod mewn rheoli neu roi'r gorau i reoli.
Asesiad hyder: UCHEL

Nod 2: Ecosystemau gwydn

Nod 2: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 2.1 Collwyd mwy na 90% o laswelltiroedd lled-naturiol yn iseldir Cymru yn y 19eg ganrif. Mae darnau cynefin sy'n weddill yn fach, yn amrywio o gyfartaledd o 6.2 hectar (glaswelltir asidig) i ddim ond 1.8 hectar (glaswelltir niwtral).
Asesiad hyder: Uchel
- 2.2 Glaswelltir lled-naturiol yw'r ecosystem fwyaf tameidiog yn iseldiroedd Cymru; mae darnau wedi'u gwasgaru'n eang o fewn tirweddau lle mae glaswelltir gwell yn dominyddu.
Asesiad hyder: Uchel
Mae rhai o'r tirweddau sydd â chysylltiad gwell yn lleol.
- 2.3 Mae glaswelltir lled-naturiol yr ucheldir yn sgorio'n uchel o ran ehangder a chysylltedd, ac mae amrywiaeth a chyflwr yn ganolig.
Asesiad hyder: Canolig
Gellir gwella gwynwch cyffredinol ecosystemau'r ucheldir trwy drosi rhywfaint o laswelltir asid yr ucheldir yn gynefinoedd eraill fel rhostir.
- 2.4 Ychydig iawn a gofnodwyd yn ddiweddar ar golli ehangder glaswelltir ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig yng Nghymru, ond mae'r cyflwr yn wael ar y cyfan.
Asesiad hyder: Canolig

- 2.5 Mae'r cyflwr yn wael ar y cyfan i laswelltiroedd lled-naturiol yr iseldiroedd y tu allan i safleoedd statudol.
Asesiad hyder: Canolig
Tanreoli yw un o brif achosion hyn.
Asesiad hyder: Uchel

Nod 2: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 2.6 Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yr iseldiroedd y tu allan i safleoedd gwarchoddedig statudol yn dal i gael eu colli oherwydd gwelliant amaethyddol.
Asesiad hyder: Uchel
- 2.7 Mae lefelau uchel o ddyddodiad nitrogen atmosfferig (ocsidau nitrogen ac amonia) yn dal i ddigwydd, er bod nitrogen atmosfferig yn dirywio'n araf. Mae'r rhain yn achosi lefelau maethynnau pridd ac asideiddio uwch yn y glaswelltiroedd lled-naturiol.
Asesiad hyder: Uchel
- 2.8 Bydd newid yn yr hinsawdd yn cael effaith negyddol uniongyrchol ar ecosystemau glaswelltir lled-naturiol, er enghraifft trwy fwy o sychder a newidiadau hydrolegol, yn ogystal ag effeithiau anuniongyrchol fel newidiadau i reoli tir.
Asesiad hyder: Uchel
- 2.9 Adnoddau annigonol wedi'u neilltuo i reoli Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig glaswelltiroedd neu dargedau gyda'r nod o wella cyflwr y safle.
Asesiad hyder: Uchel
- 2.10 Lefel annigonol o dderbyn a thargedu cynlluniau amaeth-amgylcheddol ar safleoedd glaswelltiroedd lled-naturiol.
Asesiad hyder: Uchel
- 2.11 Nid yw 90% o gynefinoedd â blaenoriaeth glaswelltir ar safleoedd gwarchoddedig.
Asesiad hyder: Uchel

Nod 3: Lleoedd Iach i Bobl

Nod 3: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 3.1 Er gwaethaf dirywiad yn y gyfradd hanesyddol o golli glaswelltiroedd lled-naturiol, mae'r trawsnewidiad i laswelltir gwell yn parhau. Mae hyn yn lleihau rheoleiddio a'r broses o ddarparu gwasanaeth ecosystem diwylliannol, gan gynnwys cyflenwad peillio, ansawdd dŵr a phridd, ymdeimlad o le a darpariaeth ddiwylliannol.
Asesiad hyder: Uchel
- 3.2 Mae tanreoli neu roi'r gorau i laswelltiroedd lled-naturiol yn dal i fod yn eang o fewn a thu allan i safleoedd gwarchoddedig statudol, sy'n golygu lefelau llai o ddarparu, er enghraifft, cyflenwad peillio a mwy o lwytho peryglon (tân).
Asesiad hyder: Uchel
- 3.3 Mae dwysáu glaswelltiroedd lled-naturiol ar orlfdiroedd wedi arwain at fwy o risg llifogydd a llygredd dŵr.

Asesiad hyder: Uchel

Fodd bynnag, cafodd prosiect mapio cyfle gorlifdir newydd ei gwblhau yn neddwyrain Cymru.

Nod 3: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 3.4 O safbwynt ffermio, mae'r ffocws yn bennaf ar gynyddu cynhyrchiant bwyd yn hytrach na nifer o fuddion gwasanaeth ecosystem.
Asesiad hyder: Uchel
- 3.5 Adnoddau annigonol i fynd i'r afael â thanreoli ar safleoedd statudol a'r tu allan iddynt.
Asesiad hyder: Uchel
- 3.6 Dull targedu gofodol annigonol o safbwynt adfer/creu glaswelltiroedd lled-naturiol i sicrhau'r buddion mwyaf posibl o wasanaeth ecosystem.
Asesiad hyder: Uchel
- 3.7 Llygredd nitrogen atmosfferig.
Asesiad hyder: Uchel
- 3.8 Mae newid yn yr hinsawdd yn achosi newidiadau sy'n niweidiol i laswelltiroedd lled-naturiol a'r gwasanaethau ecosystem y maent yn eu darparu ac yn arwain at newidiadau i ddefnydd tir sy'n niweidiol i laswelltiroedd lled-naturiol. Mae hyn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol.
Asesiad hyder: Canolig

Nod 4: Economi Atgynhyrchiol

Nod 4: Cynnydd tuag at gyflawni'r nod

- 4.1 Mae tanreoli a gadael glaswelltiroedd lled-naturiol yn dal i fod yn eang o fewn a thu allan i safleoedd gwarchoddedig statudol.
Asesiad hyder: Uchel
- 4.2 Yn nodweddiadol mae gan gig a gynhyrchir o laswelltiroedd lled-naturiol lefel uwch o faethynnau a lefelau braster is na'r hyn a gynhyrchir o laswelltiroedd sydd wedi'u gwella'n amaethyddol. Asesiad hyder: UCHEL. Mae ansawdd cig yn cael ei hyrwyddo fwyfwy ond yn aml mae'n cael ei ystyried yn llai pwysig na'r pris.
Asesiad hyder: Isel
- 4.3 Mae costau cyfalaf ffermio glaswelltir lled-naturiol yn sylweddol is nag ar gyfer rheoli glaswelltir yn ddwys, yn bennaf oherwydd gwariant llawer is ar wrtheithwyr a chemegau fferm, a hefyd llai o ddefnydd o beiriannau fferm.
Asesiad hyder: Uchel
Mae hyn bellach yn cael ei ystyried yn fwy mewn economeg fferm.
Asesiad hyder: Canolig
- 4.4 O Bennod Tir Fferm Caeedig
Mae rheoli tir yn gynaliadwy, gyda defnydd is o gemegau fferm a gwrtheithwyr

artiffisial, yn gwella'n raddol.
Asesiad hyder: Isel

Nod 4: Rhwystrau sydd ar ôl cyn cyflawni'r nod

- 4.5 Mae glaswelltiroedd lled-naturiol yn darparu enillion ariannol cymharol isel oherwydd cynhyrchiant isel, gan arwain yn aml at esgeulustod a thanreoli.
Asesiad hyder: Uchel
- 4.6 O safbwynt ffermio, mae'r ffocws yn bennaf ar gynydducynhyrchiant bwyd yn hytrach na nifer o fuddion gwasanaeth ecosystem.
Asesiad hyder: Uchel
- 4.7 Mae gwerthfawrogiad o werth maethol uwch cig o gynefinoedd lled-naturiol yn debygol o gynyddu ond mae'n dal i fod yn farchnad arbenigol i raddau helaeth ac mae'r gost yn dal i gael ei hystyried yn bwysicach.
Asesiad hyder: Uchel
- 4.8 Nid yw costau cyfalaf llawn ffermio dwys bob amser yn cael eu cyfrif wrth gynhyrchu bwyd fferm, o'u cymharu â chostau is cynhyrchu bwyd ar laswelltiroedd lled-naturiol.
Asesiad hyder: Uchel